
PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 9 Mawrth 2, 2023 50c.




## DUW A'R DAEARGRYN MAWR

Roedd nifer o awduron yr Hen Destament yn dal i feddwl am Dduw mewn ffyrdd lled baganaidd, fel duwdod oedd yn achosi trychinebau naturiol fel daeargrynfeydd a llifogydd er mwyn cosbi dynoliaeth. 'Dyma'r ddaear yn symud a chrynu. Roedd sylfeini'r nefoedd yn crynu ac yn ysgwyd, am ei fod wedi digio.' (2 Samuel 22:8) Ac yn y chwedl am y dilyw mawr, mae Duw yn dweud wrth Noa: 'Edrych, yr wyf ar fin dwyn dyfroedd y dilyw ar y ddaear, i ddifetha pob cnawd dan y nef ag anadl einioes ynddo; bydd popeth ar y ddaear yn trengi.' (Genesis 6:17).

### Act of God?

Arferai cwmnïau yswiriant fanteisio ar y gred gyntefig yma trwy gynnwys y cymal 'Act of God' mewn polisïau fel dyfais i osgoi talu am ddifrod a achoswyd gan drychinebau naturiol fel llifogydd neu stormydd. Yn haf 2005, cafodd 1,400 o bobl eu lladd pan ddinistriwyd 80% o ddinas New Orleans gan gorwynt Katrina. Nid y gwyntoedd cryfion wnaeth y niwed mwyaf, ond y dŵr a lifodd trwy fwlch yn y *levee*, sef y morglawdd a adeiladwyd i warchod y ddinas rhag y fath lifogydd. Ceisiodd llywodraeth America amddiffyn yr achos cyfreithiol am iawndal anferth trwy honni mai 'Act of God' oedd yn gyfrifol am y fath ddinistr. Ond fe wnaeth cyfreithiwr ar ran y dioddefwyr feio'r rhai a adeiladodd y morglawdd: 'This wasn't an Act of God,' meddai, 'it was incompetent engineering.'

### Llef ddistaw fain

Ar ôl i'r proffwyd Elias ffoi am ei fywyd rhag bygythiad Ahab a Jesebel i'w ladd, a chuddio mewn ogof i ddisgwyl am arweiniad Duw, bu gwynt nerthol, daeargryn a thân. Ond nid oedd yr Arglwydd yn yr un o'r rhain, meddai'r hanes. Fe glywodd Elias Dduw yn y 'Distawrwydd llethol' neu'r 'Llef ddistaw fain' fel meddai'r hen gyfieithiad.

Yn y ddaeargryn yn Nhwrci a Syria, byddai'r gweithwyr achub yn clustfeinio am y 'llef ddistaw fain' gan drueiniaid oedd wedi eu caethiwo o dan adfeilion eu cartrefi. Fe glywyd llef ddistaw fain baban a achubwyd yn fyw o dan y rwbel, er bod ei fam wedi marw ar ei enedigaeth Arswydus! Ond gan amlaf, dim ond 'distawrwydd llethol' fyddai'n ateb galwadau'r achubwyr. Nid rhywbeth gwag yw distawrwydd llethol. Yn sgil y ddaeargryn mae tawelwch lleisiau'r rhai a gollwyd yn achosi galar llethol ymhlith eu hanwyliaid.

### Hollt danddaearol fawr

Grymoedd naturiol achosodd y trychineb enbyd yn Syria a Thwrci. Ddegau o filltiroedd o dan yr wyneb mae Hollt Dwyrain Anatolia, hollt 500 milltir o hyd lle mae creigiau anferth tanddaearol yn ymwthio yn erbyn ei gilydd drwy'r amser wrth i grofen y byd symud yn araf. Bob yn hyn a hyn maent yn slipo oherwydd y pwysau anferth, gan beri i'r ddaear uwchben symud a rhwygo. Bu daeargrynfeydd mawr a mân yn yr ardal hon ers cyn cof.

### Antiochia

Un o'r dinasoedd sydd wedi dioddef waethaf yw Antakya, sef Antiochia yn Syria fel mae'n cael ei galw yn y Testament Newydd. I'r ddinas hon y ciliodd nifer o ddilynwyr Iesu Grist rhag erledigaeth yn Jerwsalem. Fe aeth y disgybl Barnabas yno ac yna'r Apostol Paul. Yn ôl Llyfr Actau, yn Antiochia y cafodd dilynwyr Iesu eu galw'n Gristnogion am y tro cyntaf erioed. Hi oedd un o ddinasoedd mwyaf yr Ymerodraeth Rufeinig, ond yn y flwyddyn 526 OC cafodd ei tharo gan ddaeargryn anferth. Bu farw dros chwarter miliwn o bobol. O ganlyniad i ddaeargrynfeydd a rhyfeloedd, fe syrthiodd poblogaeth Antiochia gynt i 5,000 o drigolion. Ond dros y ganrif ddiwethaf yn enwedig, bu ailadeiladu mawr yno, ac erbyn hyn mae bron i hanner miliwn o bobol yn byw yn ninas Antakya.

### Ysbryd Duw ar waith

Nid oedd Duw yn y ddaeargryn, ond mae ei ysbryd ef ar waith mewn ymateb pobol i'r argyfwng: y miloedd o wirfoddolwyr a ruthrodd yn syth i'r trefi a'r dinasoedd a ddifrodwyd i helpu twrio drwy'r adfeilion; y timau achub o dros gant o wledydd y byd wnaeth ymateb i'r gri am gymorth; a'r miliynau sydd wedi ymateb i'r apêl frys am arian i helpu'r trueiniaid sy'n ddigartref. Mae'n profi bod yr awydd i helpu pobl mewn argyfwng allan o dosturi a chariad at gyd-ddyn yn dal i fod yn rhan o DNA dynoliaeth, a diolch i Dduw am hynny.

**Alun Lenny**




(Llun: Cymorth Cristnogol)

# Y weinidogaeth ddoe a heddiw (5)

Atgoffwn y darllenwyr mai ystyried yr ydym gynnwys Adroddiad Comisiwn a gododd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ym 1953. Fe'i cyhoeddwyd ym 1958.

Ar ddechrau'r bumed adran, sef 'Gweithgareddau'r Eglwys', nodir nad yw 'tri chyfarfod y Sul o ddwyfol osodiad' yn digwydd yn y mwyafrif llethol o eglwysi erbyn hyn. Yn aml, dim ond un oedfa a gynhelir ar y Sul, ac mewn sawl man, nid yw hyd yn oed hynny'n digwydd yn rheolaidd bob Sul. Gyfeillion annwyl, onid yw pethau wedi newid?




Da o beth, felly, yw fod yr adran hon yn ein hatgoffa mai 'cymdeithas o addolwyr' yw eglwys, oherwydd mae'n bosibl addoli hyd yn oed os nad oes pregethwr. Cawn ein hatgoffa o'r posibilrwydd o ymroi i weddi, a darllen a myfyrio uwchben y Gair, ond o ystyried yr adnoddau ardderchog sydd ar gael erbyn heddiw i alluogi aelodau eglwysi i gynnal eu hoedfaon eu hunain, nid oes esgus am fethu cyfarfod yn wythnosol, bob Sul, petai hynny ddim ond, mewn achosion eithafol, i grymu pen ac i ddiolch i'n Tad Nefol am fendithion yr wythnos a aeth heibio, ac am ein Gwaredwr bendigedig, Iesu Grist.

### Mynegi pryder

Wedi dweud hynny, diddorol a dadlennol yw gweld fod yr Adroddiad yn mynegi pryder am 'ddiffyg arweinyddiaeth ysbrydol yn yr eglwysi'. Mae gormod o feddwl 'mewn termau seciwlar', meddir, lle y dylid fod 'gofal dros ffyniant ysbrydol'. A gofynnir, oni ddylem roi llawer mwy o ystyriaeth i gyfarfod ar aelwydydd yn hytrach na mewn capeli neu festrïoedd? Cofier mai yn ôl ym 1958 yr ysgrifennwyd y sylwadau hyn, nid yn ddiweddar nac yn dilyn cyfnod pandemig Covid-19.

### Cymell merched i fod yn weinidogion

Dwy adran sy'n weddill yn yr adroddiad. Mae un ohonynt yn ymdrin â 'Merched a'r Weinidogaeth', a'r llall yn air gan y lleygwyr oedd yn aelodau o'r Comisiwn. Byrdwn y ddau baragraff byr yn ymwneud â merched yw y 'dylid cymell merched yn meddu ar y cymwysterau gofynnol i mewn i'r weinidogaeth'. Ychwanegir wedyn y 'gellid gwylio'n ofalus a oes merched a wnâi weinidogion yn dilyn y cyrsiau Beiblaidd yn y gwahanol golegau'.

Pan osodwyd y geiriau hyn ar bapur, dywedwyd bod '27 o ferched yn weinidogion yn y Congregational Union, a bod nifer yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth yn St Paul's House, Lerpwl.' Tybed faint o ferched oedd yn weinidogion mewn eglwysi cysylltiedig ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn y dyddiau hynny? Credwn ein bod i gyd yn gwybod yr ateb heb i neb ohonom orfod gwneud unrhyw ymholiad ymhellach!

### Cyfrifoldeb lleygwyr

Atodiad yw'r darn olaf o'r adroddiad, ac yn enw'r lleygwyr y cyhoeddir ef. Eisoes, wrth drafod 'Gweithgareddau'r Eglwys', nodwyd ei bod yn 'rhesymol disgwyl i'r saint gynnal y weinidogaeth ar gyfartaledd yr hyn y maent yn ei fwynhau eu hunain', ond mae'n amlwg fod teimlad nad oedd yn briodol i weinidogion ehangu ar y mater ac mai gwell fyddai i'r lleygwyr wneud hynny. Nodir y gwaith ardderchog y mae gweinidogion yn ei wneud a phwysleisir yr angen i aelodau eglwysi werthfawrogi eu hymdrechion, a daw'r adroddiad i ben gyda'r geiriau hyn:

> Tybir yn rhy aml mai mater i'r gweinidog yn unig yw cynnal bywyd ysbrydol yr eglwys. Apeliwn at holl aelodau ein heglwysi i ymroi i feithrin yr hinsawdd gynnes a'r ddaear barod i dderbyn yr had. Hynny a rydd i ni orau'r weinidogaeth heddiw, ac a fag i ni gyfryngau gweinidogaeth yfory. Y mae gwerth gweinidogaeth gref ac amser llawn yn amhrisiadwy'r eglwys, a dylai pawb ymhob ryw fodd roi eu gorau i'w sicrhau, ei chynnal, a'i choleddu yn rhwymau'r Efengyl.

Mewn llawer man, y mae'n rhy hwyr i hyn ddigwydd, ond eto, gallwn ddiolch yn ddiffuant i'n gweinidogion am eu gwaith dyfal a'u gofal ardderchog. Wedi dweud hynny, rhaid i ni wynebu'r ffaith fod her y cyfnod presennol yn fwy nag y gall grŵp bychan o weinidogion ei hysgwyddo. Mae galwad arnom i gyd, felly, i sefyll yn y bwlch, i hogi ein harfau, i godi ein lleisiau ac i fwrw i'r gwaith.

**Geraint Tudur**
Bangor

# Emyn o Fawl

I Dduw Iesu Grist am ei galon o gŵyr. Mae'r emyn hwn yn seiliedig ar hanes Barnabas fel y cawn ef yn 'Llyfr yr Ysbryd Glân'.

I ti, Dduw, ein holl ddaioni,
Y rhown glod am gewri hael,
A gânt fwy o fudd o roddi,
Nac wrth gasglu, ac wrth gael:
Y rhai wêl o draw eu cyfle
I roi'n daer i'r trist a'r gwan,
Tra bod eraill eto'n cadw
Mwy na'u hangen, mwy na'u rhan.

I ti, o Dduw, yr hedd gwastadol
Y rhown fawl am hyder gŵyl
Na rydd bwys ar swydd na safle
Wrth gyd-rannu'r her a'r hwyl:
Y rhai sydd o hyd yn fodlon,
Yng nghenhadaeth Crist ar daith
Tra bod eraill am ddal gafael
Ym mhris lywiau'r antur faith.

I ti, Dduw, y gwir brydferthwch
Y rhown fri am galon fawr,
Fel sy'n eiddo'r rhai a genfydd
Frawd o ffydd mewn gelyn mawr.
Y rhai wêl drwy lygaid Iesu,
Linach Saul yng ngwawl y nef
Tra bod eraill eto'n amau,
Wyrth 'y bore' ynddo ef.

I ti, Dduw fu'n geirio'r cread
Y rhown barch eglwysi'r ffydd
Am weld dorau'r Iesu'n agor,
Mor obeithiol yn Ei ddydd.
Y rhai sydd dan raid i rannu
Breintiau a bendithion gras.
Tra bod eraill am gyfyngu –
Pyrth iawnderau'r dwyfol was.

I ti, Dduw, sy'n llawn tosturi,
Y rhown fawl am rin a thras,
Y rhai ddeil i gredu ynom
Er ein gwamal droeon cras.
Y gwroniaid mwyn, ymroddgar
Â'n gwêl eto'n dystion Crist,
Er nad ydym mwy i amryw
Namyn hen wrthgilwyr trist.

Gweler: Actau 44: 36; 9:27; 11:22–15: 39, 21; 1 Cor.9:6; Galat.2:1–15; Col. 4: 10.

**Gerald Jones**

Yr Adran
Gydenwadol

MAWRTH 2 2023 RHIF 105



# Dathlu Gŵyl Ddewi?



Ynghudd, o dan gochl y sachlïain a lludw cyhoeddus, onid tipyn o embaras bellach yw'r cannoedd o gapeli diaddurn sy'n britho ein broydd? Yn ein Cymru fodern, flaengar a 'rhyddfrydig' ni, 'lluniau' sepia mewn bocs cardfwrdd o oes sydd bellach wedi diflannu ydynt. Atgof o fywyd a giliodd. Rhywbeth sy'n achosi rhyfeddod yw dychmygu'r bywyd oedd ynghlwm â hwy, fel rhywun yn ei arddegau'n darganfod llun wedi colli ei liw o nain mewn bicini!

Da y dywedodd Grahame Davies:

> Nid testun balchder, o ddifri,
> Yw bod Bethelau'n britho ein bro;
> nid testun tristwch yw eu tranc.
> Cofebau ydynt i'n cecru;
> meini ein hymraniadau
> a godwyd yn enw cariad
> i gadw cymdogion ar chwâl.

***

Er hyn, yn y byd newydd, dewr, hwn, bydd yr anghydffurfwyr mwyaf cenedlaetholgar, y seciwlarwyr mwyaf digrefydd a'r Eglwyswyr mwyaf pybyr, oll am ran o Ddewi – hyd yn oed os mai gafael blaen ewin yn unig yw'r cyswllt hwnnw!

***

Beth tybed yw ystyr sôn am 'Ddewi, ein *nawddsant*' mewn gwlad a Brotestaneiddiwyd drwy Feibl William Morgan, drwy bregethiad y Gair a gweithgaredd yr Ysbryd Glân? Beth yw ystyr 'nawddsant' mewn gwlad a seciwlareiddiwyd ac a gefnodd yn fwriadol ar yr Hwn a dorrodd i mewn i fywyd Dewi?

Awgryma gwefan Eglwys Gadeiriol Tyddewi fod yr allor a adnewyddwyd i Ddewi yn ffocws i weddïau llawer o bobl. Mae Dewi Sant, meddir (yn Saesneg yn unig!), yn symbol o Gymru, yn ffigur y gall Cymry ledled y byd droi ato. Dydd i ddathlu cymeriad a diwylliant Cymru yw Mawrth 1af, meddant.

O neuaddau cyngerdd ysblennydd i westai moethus, a hyd yn oed i hyrwyddo St David's Gin, tynnir ar enw Dewi. Ond beth mewn gwirionedd sydd gan Dewi, y mynach asetig, yn gyffredin â chanolfan siopa yng Nghaerdydd a phleidlais mewn etholiad?

***

Mor denau yw cynnwys cwlt Dewi Sant. O dan bwysau cenedlaethol, tynnwyd Dewi yn ôl o unigedd ei gell a'i hunanddisgyblaeth lem. Boddwyd Dewi Ddyfrwr mewn môr o gawl cennin; claddwyd Dewi o dan domen o bicau ar y maen a mudwyd ei lais gan lu o anerchiadau ffraeth siaradwyr gwadd ein dathliadau.

Cuddiwyd o'r golwg y gŵr duwiol a roddodd ei fryd ac a dreuliodd ei oes, costied a chostio, i ddwyn y newyddion da am Iesu Grist i'w gyd-wladwyr.

***

Y cyntaf o Fawrth oedd hi yn y flwyddyn 589. A thynnodd Dewi ei anadl fenthyg olaf.

Beth tybed feddyliai Dewi fyddai ei waddol? Heblaw am ambell achos a sefydlwyd ganddo a'r ychydig fynachod a drigai gydag ef, beth oedd ganddo i'w adael yn ei 'ewyllys' i'w gymdeithas? Onid oedd yn fwriadol wedi cefnu ar gyfoeth, ar lysoedd tywysogion ac ar loddesta, i fyw bywyd syml a duwiol? Tybed a feddyliodd am foment y byddai unrhyw rai, y tu hwnt i gof cenhedlaeth ei gyd-weithwyr, yn adrodd am ei ymdrechion y tu hwnt i hynny?


Pwy fyddai'n cofio am ei hunanddisgyblaeth lem, ei gell dlawd, ei deithiau drwy 'Gymru' a thiroedd Prydain gan sefydlu, yn ôl yr hanes, fynachlog mor bell â Glastonbury?

A gofient am ei bererindod i Jerwsalem a'i urddo'n esgob yno? A orweddodd wrth i'w anadl brinhau yn meddwl am epigraff cofiadwy, am fod yn llawen, am gadw'r ffydd a gwneud y pethau bychain y bu ef ei hun yn esiampl ohonynt? Ni chroesodd ei feddwl, mae'n siŵr, y byddai Pab yn Rhufain, ymhen y rhawd, yn ei ganoneiddio'n Sant (Callactus II, 1120 OC)! Onid digon ganddo fyddai cael ei gyfrif ymhlith y rhai a sancteiddiwyd drwy Iesu Grist, trwy air Duw, a thrwy dystiolaeth yr Ysbryd Glân?

***

Fel blwch tywyll ar alwad Zoom, ymddengys enw Dewi fel un sy'n bresennol yng nghyfarfod ein cwmwl tystion cenedlaethol. Cawsom Dewi, er na cheisiem ef na'i debyg.

Yng nghyfarfodydd 'hanes y Cymry', er i'w lais gael ei wneud yn fud, erys ei bresenoldeb yn dystiolaeth i rywbeth mwy na'r ffasiwn ddiweddaraf mewn marchnata. Erys Dewi yn dystiolaeth i ddaioni Duw tuag at ein pobl, ein hil a'n tras.



Llun: Trwy ganiatâd Robert Freidus: https://victorianweb.org/misc/freidus.html

Daeth Dewi yn ei ddydd yn dyst i alluoedd ysbrydol mwy na phaganiaeth ei oes. Daeth gan dystio i grëwr y byd. Daeth yn dyst i Arglwydd a dorrodd i mewn i fyd o hanes i brynu ei eiddo yn ôl.

Wrth gofio am Dewi, fe gofiwn am drugaredd Duw tuag at ein cenedl, o ddyddiau cynharaf ein hiaith, hyd heddiw. Rhyfeddwn at yr adegau anghyffredin o fendith a dywalltwyd ar ein gwlad pan oedd Cymru gynt yn gorwedd mewn rhyw esmwyth, farwol hun. Ac er ein bod yn cofio mai drwy lestri digon amherffaith, drwy bobl a ffurfiwyd o glai eu hoes y daeth y bendithion i'n gwlad, ni phallwn rhag diolch am y ffyddlondeb dwyfol, grasol, hwnnw i'n pobl drwy bob cenhedlaeth.

Pan fo 'Bethelau' a sefydliadau crefyddol ddoe yn parhau i ddadfeilio, fe ddiolchwn nad mewn adeiladau mawreddog nac mewn blychau diaddurn, dros dro, y costrelwyd rhinwedd tystiolaeth Dewi. Cymunedau o bobl, cymdeithasau o addolwyr, seiadau o gredinwyr, cwmwl o dystion, sydd wedi bodoli drwy hanes ein cenedl, yw ei waddol am mai dyna yw hanfod eglwys Iesu Grist a'i thystiolaeth.

Ac wrth i unigolion gymryd Iesu Grist yn Arglwydd i'w calonnau, i'w cartrefi, i'w cymunedau a'u broydd, fe fydd disgynyddion 'Dewi' yn parhau yn y tir i addoli ac i dystio i ogoniant yr hwn a'n prynodd iddo'i hun.

Diolch Iddo!

*RWJ*

# Rhyfel Wcráin – flwyddyn yn ddiweddarach

Mae'r dinistr yn Wcráin wedi dod yn llun rhy gyfarwydd i ni bellach. Er hynny, mae'n bwysig nad ydym yn normaleiddio'r hyn sy'n digwydd, ond yn sicrhau ein bod yn cofio mai pobl a theuluoedd sy'n dioddef fwyaf yn y rhyfel hwn, fel ym mhob rhyfel.

Yr hyn sy'n druenus yw fod yna flwyddyn gyfan o ryfel wedi mynd heibio ac nad oes rhyw lawer o newid na chadoediad wedi digwydd. Ac fel ym mhob rhyfel, fe ddaw yna gyfnod o drafodaeth ddiplomataidd fydd yn dod â diwedd i'r gwrthdaro gwaedlyd hwn. Felly, dylem barhau i edrych i weld sut y gallwn greu cymod a chreu heddwch hirdymor yn yr ardal ansefydlog hon.

Angharedig fydd dedfryd hanes ar benderfyniad Putin i ymosod ar Wcráin a'i arlywyddiaeth yn gyffredinol. Pan ddaw'r amser, bydd y troseddau rhyfel yn ddedfryd ar yr hyn sydd ar ddigwydd.

Mae cost economaidd y rhyfel i Wcráin yn syfrdanol, ac mae'r wlad bellach yn ddibynnol ar gymorth dyngarol rhyngwladol, tra mae sancsiynau wedi crebachu economi Rwsia i ganran fach o'i phŵer blaenorol. Er hyn, mae'n debygol o dyfu yn y flwyddyn nesaf wrth iddi ddatblygu'n economi mewn rhyfel, a hwnnw'n dwf mwy nag a welir yn economi'r Deyrnas Unedig. Ond mae hynny o bosib yn dweud mwy am sefyllfa wleidyddol Prydain na dim arall. Mae yna gwestiynau sydd angen eu hateb o hyd am berthynas economi Rwsia a Llundain, gyda phapurau Ewropeaidd yn galw'r brifddinas yn *Londongrad* yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Deyrnas Unedig wedi cyflenwi £2.3 biliwn o gymorth milwrol i Wcráin ers dechrau'r rhyfel, ond nid ydym yn gwybod beth yn union mae'r cymorth hwnnw'n ei gynnwys. Nid yw'r llywodraeth wedi datgelu'r wybodaeth, ond cafwyd un honiad bod 25,000 o filwyr Rwsia wedi marw o ganlyniad. Dywedir bod y gwrthdaro wedi anafu neu ladd 180,000 o filwyr Rwsiaidd, 100,000 o filwyr Wcráin a 40,000 o bobl ddiniwed. Mae yna wastad bris mwy ar ryfel.

Mae yna bwysau cynyddol ar wledydd y Gorllewin i barhau i fuddsoddi a chefnogi Wcráin drwy gefnogaeth a gwariant milwrol, sy'n golygu bod y ganran o GDP y gwledydd hyn yn cynyddu heb lawer o drafodaeth yn ei chylch. Amlinellodd Ffrainc gynlluniau ar gyfer hwb mawr i'w lluoedd arfog, yn rhannol oherwydd y rhyfel yn y Wcráin, gan ddweud y byddai'r gyllideb yn cynyddu i €413bn (£360bn) rhwng 2024 a 2030, cynnydd o €295bn. Mae'n hanfodol nad yw hyn yn dod yn norm newydd, lle mae arfau yn cael blaenoriaeth dros wasanaethau hanfodol gwlad. Yn wahanol i'r naratif yma, mae nifer o wledydd De America wedi gofyn am heddwch a gwrthod cynnig cymorth arian ond yn hytrach gymorth dyngarol, gydag Arlywydd Brasil, Luiz Inácio Lula da Silva, yn nodi nad oes digon o drafodaeth dros heddwch wedi bod.

Yn ôl araith ddiweddaraf Putin, mae'n debygol na fydd diwedd ar y gwrthdaro. Ac mi ddylai ei fygythiad cyson i ddefnyddio arfau niwclear godi braw ar bawb, gyda photensial y fath arf i greu dinistr nad yw dynoliaeth wedi ei brofi o'r blaen, ac a fyddai'n effeithio ar bobl ar draws y byd.

Mae arbenigwyr yn nodi bod gan y rhyfel y potensial i barhau am flynyddoedd, ond bydd yr wythnosau nesaf hyn yn rhai hollbwysig. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i edrych am opsiynau i greu amodau ar gyfer heddwch er budd pobl Wcráin – ac osgoi peri i'r rhyfel ymledu.

*Rhun Dafydd*
*Cadeirydd Cymdeithas y Cymod*




***Mae Cymdeithas y Cymod yn galw am gadoediad ar unwaith yn Wcráin i adael lle ar gyfer trafodaethau a diplomyddiaeth.***

***Safwn mewn undod gyda mudiadau heddwch yn Rwsia, Wcráin, America a gwledydd Ewrop a rhannwn eu datganiadau dros heddwch, y ffordd ddi-drais a'r hawl i wrthwynebiad cydwybodol.***

**Mae Mudiad Gwrthwynebwyr Cydwybodol i wasanaeth milwrol yn Rwsia'n** *'galw ar filwyr Rwsia i beidio cymryd rhan yn y gwrthdaro ... pob recriwt i wrthod gwasanaeth milwrol ac i wneud cais am wasanaeth sifil amgen'*

**Mae Mudiad Heddychwyr Wcráin yn** *'galw ar arweinwyr Rwsia ac Wcráin a'u lluoedd arfog i sefyll yn ôl ac i eistedd wrth y bwrdd trafod. Dim ond mewn ffordd ddi-drais y gellir sicrhau heddwch yn Wcráin ac ar draws y byd. Mae rhyfel yn drosedd yn erbyn y ddynoliaeth. Felly rydym yn benderfynol o beidio cefnogi unrhyw fath o ryfel ac i ymdrechu i symud ymaith pob achos rhyfel'*

Mae Cymdeithas y Cymod yn condemnio gwleidyddion Cymreig a Phrydeinig sy'n cynyddu'r tensiynau a bwydo fflamau casineb a gwrthdaro. Galwn ar ein haelodau etholedig i weithio dros heddwch ac i sicrhau cymorth dyngarol a lloches ddiogel i ffoaduriaid yn hytrach nag anfon arfau i ychwanegu at yr ymladd.

**BETH FEDRWCH CHI EI WNEUD?**

1. Ysgrifennu at neu gyfarfod eich aelodau etholedig yn Llundain a Chaerdydd.
2. I gymryd rhan mewn ymgyrchu a gweminarau, cysylltwch am fwy o wybodaeth cymdeithasycymod@gmail.com
3. Ymaelodi fel heddychwr mewn solidariti gyda'r rhai sy'n gwrthwynebu y galw i ymladd

# Rhodd Gostus Crist o Gymod

Cyfres o fyfyrdodau ar gyfer y Grawys gan yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

### Wythnos 2

"Eglwys Noddfa ar gyfer byd tymhestlog."

**Ysgrythur:** Hebreaid 13:1–3

### Myfyrdod

Yr wythnos diwethaf canolbwyntiwyd ein gweddïau a'n myfyrdodau ar erchyllterau rhyfel a chyfrifoldeb yr Eglwys i hyrwyddo cymod. Yr wythnos hon, myfyriwn ar ein hymatebon i un o drasiedïau rhyfel – dadleoliad pobl – gyda'r perygl, y golled a'r gwahanu a ddaw yn sgil hyn.

Yn ei hapêl fyd-eang ar gyfer 2023, amcangyfrifodd Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (UNHCR) fod nifer y bobl a gafodd eu dadleoli drwy orfodaeth yn 100 miliwn – y nifer mwyaf a gofnodwyd erioed. Mae hon yn broblem fyd-eang lle gall yr eglwys leol wneud cyfraniad o wir gymorth.

Mae CTBI yn gweithio gyda'r Parchedig Ddr Inderjit Bhogal, a sefydlodd y mudiad Dinas Noddfa, er mwyn annog a chefnogi ein haelodau i ddod yn Eglwys Noddfa. Dyma dystiolaeth arwyddocaol o ymrwymiad yr Eglwys i egwyddorion lletygarwch a chefnogaeth, wedi eu hysbrydoli gan ein ffydd Gristnogol, a lle nad yw croeso wedi ei gyfyngu i'n cyd-Gristnogion. Mae'r cysyniad o noddfa yn hen egwyddor, ac mae'n datgan mewn cyd-destun crefyddol y dylai safle sanctaidd fod yn fan diogel i bawb.

Mae'r myfyrdod o'r Ysgrythur heddiw yn cysylltu cydsefyll ag empathi – sut fyddem ni am i bobl ymateb pe baem ninnau'n ein cael ein hunain mewn



sefyllfa beryglus, wedi ein cam-drin, ac fel dieithriaid yn cyrraedd rhywle a diwylliant anghyfarwydd? Cawn ein hatgoffa hefyd nad y gwestai yn unig sy'n elwa o fuddion lletygarwch, ond bywydau'r sawl sy'n rhoi llety drwy gwrdd a rhannu.

Pan fyddwn yn casglu storïau o eglwysi noddfa, rydym yn falch o weld eu bod yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r iaith a glywn ar adegau neu a ddarllenwn yn y cyfryngau ac sy'n tueddu i drin pobl fel gwrthrychau yn unig. Bu'r blynyddoedd diweddaraf hyn yn arbennig o anodd i lawer o bobl yn ein cymunedau wrth i argyfwng brawychus mewn costau byw ddilyn ar sodlau pandemig dinistriol.

Mae yna berygl gwirioneddol y bydd pobl yn blino ar ddangos tosturi wrth i rai sy'n cael pethau'n anodd eu hunain deimlo nad oes ganddyn nhw ddigon i'w rannu. Ac mae'n bosib i grwpiau a chymunedau bregus gael eu trin fel pe baen nhw mewn cystadleuaeth yn erbyn ei gilydd; gall hyn arwain at ddieithrio, gwrthod ac ynysu, sydd yn cynyddu'r dioddefaint. Yn aml, pobl sydd yn ceisio lloches fydd ymhlith y mwyaf bregus ohonyn nhw i gyd, gyda statws cyfreithiol ansicr, dim cartref a rhwydweithiau cymorth gwan.

Ar y cyfan, yn ein cymdeithas yn yr ynysoedd hyn, mae gennym ni adnoddau digonol i sicrhau bywyd urddasol i bawb, cyn belled â'n bod yn sicrhau bod yr adnoddau hynny'n cael eu rhannu'n decach mewn modd sy'n gwarchod lles pawb. Yn y cyfarfodydd a drefnir gan yr eglwysi noddfa, caiff pobl eu helpu i sylweddoli ein bod yn gryfach pan fyddwn yn sefyll gyda'n gilydd a bod y cydsafiad hwnnw'n cynhyrchu gobaith a gwytnwch.

### Cwestiynau

- Beth mae bod yn eglwys noddfa yn ei olygu i'r Eglwys?
- I ba raddau ydych chi'n cael profiad o'ch eglwys fel noddfa yn eich cyd-destun enwadol lleol neu eciwmenaidd?
- Sut allai'r gwerthoedd sydd yn sail i'r mudiad Eglwys Noddfa drawsffurfio'r modd y mae materion sydd yn ymwneud â ffoaduriaid a lloches yn cael eu portreadu yn y cyfryngau?

### Camau Gweithredu

- O adran Newyddion gwefan UNHCR, dysgwch am yr ymateb i ffoaduriaid mewn rhannau eraill o'r byd. Beth allwn ni ei ddysgu ar yr ynysoedd yma o'r ymateb hwn?
- Defnyddiwch adnodd CTBI 'Duw Gyda Ni/God With Us' er mwyn cynnwys gweddïau dros ffoaduriaid yn eich addoliad.
- Mae Sul Noddfa (25 Mehefin 2023) yn gyfle i eglwysi ym Mhrydain ac Iwerddon hyrwyddo'r rhaglen Eglwys Noddfa, ac adeiladu diwylliant o groeso, lletygarwch a diogelwch yn ein heglwysi. Mae'r adnodd 'Lletygarwch a Noddfa i bawb' yn cynnig myfyrdodau, gweddi a syniadau ar gyfer gweithredu ar Sul Noddfa.

### Gweddi

Dduw cariadus,
Gweddïwn y bydd cyflwr y ffoadur yn cwrdd â chyfiawnder a thosturi.
Bydded i'r Eglwys fod yn fan lle gall pawb ddod o hyd i noddfa, a lle gall y sawl sydd wedi dioddef wrth i'w hurddas gael ei wadu ddod o hyd i letygarwch, parch a gwellhad.
Diolchwn am y ffyrdd niferus mae newydd-ddyfodiaid wedi cyfoethogi ein cymunedau, ac am ddieithriaid a ddaeth yn gyfeillion.
Rho gymorth i ni ddod â'r trais a'r anghyfiawnder sydd yn gyrru pobl o'u cartrefi i ben.
Gwylia dros y rhai a orfodwyd i ddilyn teithiau peryglus.
Tywys nhw i fan lle byddant yn ddiogel ac yn perthyn.
Amen.

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 5 Mawrth, am 7.30yh**
*Gŵyl Ddewi*
Byddwn yn dathlu dydd Gŵyl Dewi, nawddsant ein cenedl. Gwnewch y pethau bychain fydd yn mynd â'n bryd ninnau yn y rhaglen yr wythnos yma. Daw'r canu mawl o Gapel Bwlchgwynt, Tregaron, dan arweiniad Delyth Hopkins Evans.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 5 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
R. Alun Evans yn cyflwyno emynau ar y thema 'Cymdeithas'

**Sul, 5 Mawrth, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Tim Webb, Dolgellau

# DATHLU 60 MLYNEDD PROTEST PONT TREFECHAN

Doedd y criw ifanc a eisteddodd i lawr ar bont Trefechan 60 mlynedd yn ôl er mwyn mynnu'r hawl i ddefnyddio'u mamiaith mewn llys barn ddim yn credu eu bod nhw'n creu hanes y diwrnod hwnnw. Gweithredu oeddem am ein bod wedi ein cyffroi i herio annhegwch ac i hawlio cyfiawnder dros y Gymraeg. Doedd neb wedi cynllunio ymlaen llaw mai blocio pont Trefechan fyddai'r weithred.

### Pigo cydwybod cenedl

Ar ôl i ddarlith radio enwog Saunders Lewis bigo cydwybod a chynnau'r fflam ymysg nifer, bu llawer o drafod ynghylch beth i'w wneud. Chofia i ddim pwy yn union gynigiodd ein bod yn atal y traffig ar y bont pan gasglwyd ynghyd yn yr Home Cafe mewn rhwystredigaeth yn dilyn digwyddiad yn y dre pan blastrwyd posteri dros y Swyddfa Bost yno ond chafodd neb eu harestio. Mae'n amlwg i'r heddlu gael gorchymyn i ymatal rhag gwneud unrhyw arestiadau – dyna a ddigwyddodd ar y bont y diwrnod hwnnw hefyd. Ond daeth y weithred feiddgar honno â'r brotest i sylw'r genedl gyfan a thu hwnt. Nid rebeliaid difeddwl oeddem ni ond criw o bobl ifanc wedi ein trwytho yng ngwerthoedd Efengyl Cyfiawnder a Thangnefedd ar ein haelwydydd ac yn yr ysgol Sul. Roeddem ni'n gwybod yn iawn beth oedd gorthrwm ac annhegwch fel mae cân Dafydd Iwan 'Pam fod eira'n wyn?' yn darlunio.



### Hawliau gwledydd bychain

Wrth i ymerodraethau mawr y gorllewin ddadfeilio wedi'r Ail Ryfel Byd, safodd nifer gynyddol o wledydd bychain i fyny am eu hawliau. Yr oedd Gandhi wedi dangos y ffordd gyda'i brotestiadau di-drais; yr oedd gorymdeithiau heddwch CND hwythau'n mynnu sylw ac yn rhoi inni'r hyder i herio'r drefn. Heb ein bod yn llawn sylweddoli hynny, yr oeddem ninnau hefyd yn rhan o'r cyffro ac yn crisialu'r teimlad fod awr gweithredu wedi dod. Dechreuad oedd protest pont Trefechan.

### Cyfrifoldeb y to ifanc

Braint o'r mwyaf i mi oedd medru bod yno yn Aberystwyth 60 mlynedd yn ddiweddarach i ddathlu gwaith Cymdeithas yr Iaith ar hyd y blynyddoedd. Mae'r sefyllfa'n fregus o hyd ond mae'r Gymraeg yn fyw, yn hyfyw, yn iaith cymuned ac yn iaith swyddogol ein cenedl. Mae e lan i'r to ifanc nawr i ysgwyddo'r baich a chreu Cymru Gymraeg fodern, fywiog.

**Elenid Jones**

# Llythyr

Bu erthygl yn *Y Tyst* yn ddiweddar am gyfarfodydd awyr agored. Cefais fy magu bron ar gyfarfodydd awyr agored Byddin yr Iachawdwriaeth. Pan oeddem yn efengylu yn Lerpwl gyda chyfeillion daeth un neu ddau o Gristnogion atom a chymryd rhan ar unwaith. 'Dewch i'n capel ni ddydd Sul,' meddent. Yno cefais gais i arwain cyfarfod arall, a'r gweinidog gyda ni. Nid oes angen seindorf ond fe fyddai rhyw fath o gerddoriaeth yn beth da.

Bu llawer iawn o gyfarfodydd awyr agored yng Nghymru yn ystod Diwygiad 1904-05. Yng Nghaernarfon, yn ystod y cyfnod hwnnw, ar ôl cyfarfod gweddi a barhaodd tan hanner nos aeth yr holl gynulleidfa allan i'r sgwâr. Yn y *Caernarfon and Denbigh*, papur lleol, roedd pennawd mawr yn dweud, 'Daeth tri o'r pechaduriaid gwaetha yn y dref yn Gristnogion.'

Rwyf wedi awgrymu fwy nac unwaith yn *Y Tyst* y dylem gael sesiynau arbennig i hyfforddi pobl sut i arwain.

Yr eiddoch yn gymwys,
Wena D. Parry BA

# PROSIECT DENMAN 2023

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) ar y thema:

## Ein Hysgol Sul: 'Dweud am Iesu.'

Yr ydym ni bellach wedi symud at ailgydio yn ein cyrddau a'n hysgolion Sul ni, ac er i ni fod ar wahân am gyfnod, mae neges yr Iesu yn aros yr un. Sut fyddech chi'n hoffi sôn wrth bobl am eich ysgol Sul chi ac am neges Iesu Grist?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru erbyn dydd Llun, 5 Mehefin 2023.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Wrecsam ym mis Mehefin.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

# Golygyddol

## Stori dda

Beth sy'n gwneud stori dda? I mi, gwrthgyferbyniad personoliaethau, ac un o'r straeon mwyaf trawiadol yn yr ystyr yna gen i ydi stori Naboth a'i winllan yn 1 Brenhinoedd, pennod 21. Mae'n un o'r straeon Beiblaidd mwyaf perthnasol i ni heddiw, a'r gwrthgyferbyniad, wrth gwrs, rhwng Ahab brenin Samaria, a Naboth y Jesreel oedd â gwinllan fach eitha di-sylw wedi ei phlannu yng nghysgod palas y brenin. Penderfynodd Ahab ofyn i Naboth os y byddai'n fodlon gwerthu ei winllan iddo. Pen draw'r stori oedd i Naboth wrthod gwneud hynny. O ganlyniad i'r gwrthod hwnnw anfonodd Jesebel, gwraig Ahab, lythyrau yn enw Ahab at henuriaid ac uchelwyr y ddinas a'u gorchymyn i ddod a Naboth druan o flaen y bobl a'i gywilyddio'n gyhoeddus am iddo wrthod cais y brenin. A do, fe'i llabyddiwyd, a bu farw.

### Yr hyn sy'n werthfawr i ni

Oedd, roedd Ahab yn un dylanwadol, ac os rhywbeth mi oedd Jesebel yn beryclach na fo, ond i mi y cryfa oedd Naboth am iddo sefyll dros yr hyn oedd yn iawn a'r hyn oedd yn bwysig iddo fo sef y winllan.

Yng ngolwg y byd yn gyffredinol mae'r 'gwledydd llai' yn golygu'r nesa peth i ddim i'r gwledydd cryf, cyfoethog, a dydi Cymru yn y cyd-destun hwn ddim yn eithriad oherwydd cawsom ein sathru dro ar ol tro yn y gorffennol, ac onid ydi geiriau Harri Webb yn crynhoi hyn mewn un pennill ymysg eraill ganddo?

Colli tir a cholli tyddyn,
Colli Elan a Thryweryn;
Colli Claerwen a Llanwddyn
A'r wlad i gyd dan ddŵr llyn.

Os nad ydi Cymru'n golygu llawer i eraill, mae'n golygu bron popeth i mi ... ac i chi, gobeithio.

### Bron popeth ...

Ia, dyna ddywedais i – bron popeth. Y popeth llawn i mi ydi'r Efengyl, oherwydd o'r Efengyl y daw popeth arall. Os nad ydi'r Efengyl yn golygu llawer i eraill, mae'n golygu popeth i mi. Sut fath o Efengyl? Efengyl sy'n canolbwyntio ar rhywbeth nad oedd ac nad yw'n golygu fawr ddim i lawer – Croes ac Atgyfodiad. Yr hyn sy'n sylfaenol ydi i Iesu Grist farw drosom ni ar y groes. Ar groes? Ia, ar groes – ar ddau ddarn o bren cyffredin, a hynny er mwyn gwneud rhywbeth anghyffredin sef ein cymodi ni a Duw, ac er mwyn selio hynny mae'n gorchfygu marwolaeth ac yn dangos bod gobaith i ni drwy ei waed a'i groes. Ydyn ni'n mynd am yn ôl? Dim o gwbl! Rwyf wedi sylweddoli ers peth amser bod yn rhaid mynd yn ôl i'r fan hon er mwyn medru symud ymlaen, neu dim ond cragen wag o grefydd fydd gennym, un na fydd yn ddim i neb yn y diwedd, ac yn amherthnasol yn y pen draw.

Ar sail yr hyn a wnaeth Iesu ar y groes, a oedd cofiwch, yn cael ei gyfrif, fel Naboth a'i winllan, yn ddim byd ond rhywbeth eilradd, dyma'r peth mwyaf perthnasol sy'n bod, ac ar y dystiolaeth hon mae popeth arall yn cael ei adeiladu. Os ydach chi angen pennod neu ddwy wnaiff glensio'r cwbl, trowch at bennod gyntaf 1 Corinthiaid, a darllenwch ymlaen o adnod 14 reit i ddiwedd pennod 2. A bendith arnoch.

**Iwan Llewelyn**

## Y CWMNI BACH: Podlediad misol yr Undeb




Mae podlediad misol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, *Y Cwmni Bach* wedi bod yn mynd ers mis Hydref diwethaf ac erbyn hyn yna griw difyr wedi ymuno yn y cwmni i rannu sgwrs, i sôn ychydig am eu bywydau ac am y byd a'i bethau.

Yn y rhifyn diweddaraf o'r *Cwmni Bach* mae Rhun Dafydd, cadeirydd Cymdeithas y Cymod, yn ymuno i gael sgwrs. Mae Rhun, sy'n dod o Fro Morgannwg ac sydd â'i wreiddiau yn y gorllewin, yn rhannu hanes ei fywyd ac yn sôn am y ffaith ei fod yn argyhoeddedig mai llwybr heddwch yw'r *unig* ffordd ymlaen yn y byd hwn. Does dim ateb arall. Mae Rhun yn llais huawdl, ifanc a brwd dros ddod ynghyd a thrafod er lles pawb, mae'n dweud mai dyma'r unig ateb sydd i'r byd. Flwyddyn ers cychwyn y rhyfel yn Wcráin fe wyddom o'r gorau nad rhyfel yw'r ateb, i unrhyw beth.

Mae modd i chi wrando ar rifynnau blaenorol o'r *Cwmni Bach* drwy fynd i wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: www.annibynwyr.cymru a chwilio am y podlediadau yno. Cafwyd cwmni ardderchog yn y rhifynnau cynt, pobl fel y canwr Delwyn Siôn, yr athrawes Ioga Laura Wyn, Nel Richards myfyrwraig o Gwm Tawe sydd ar dân dros faterion amgylcheddol ac Emlyn Davies o Bentyrch fu'n gweithio ym myd y cyfryngau ar hyd ei yrfa ac sydd wedi bod yn arwain ar y cynllun Eglwysi Dementia-gyfeillgar gyda'r Undeb.

Gobeithio'n wir y gwnewch chi fwynhau'r arlwy amrywiol a hwyliog ac y gwnewch chithau ymuno yn y sgwrs gyda'r *Cwmni Bach*.

## DYDD GWEDDI'R BYD 2023 TAIWAN

Cynhelir dydd Gweddi'r Byd ddydd Gwener, 3 Mawrth

Thema: 'Clywais am eich ffydd'

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gael yn Gymraeg drwy e-bostio Mary Thomas: rema.thomas@btinternet.com.

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gefndir Taiwan, 20 sleid gyda theitlau Cymraeg ynghyd â sgript Cymraeg [Taiwan Presentation Welsh Slides Download with Welsh script] ar gael o'r Swyddfa Ganolog drwy e-bostio office@wwdp.org.uk

Pris y PowerPoint Saesneg yw £2. ond medrwch sicrhau'r lawr lwythiad Cymraeg ond i chi gyfrannu at eich casgliad lleol.

Deunydd ar gyfer plant i'w cael yn rhad ac am ddim i'w lawr lwytho oddi ar y wefan: www.wwdp.org.uk

**Beti-Wyn James, Carys Ann**
*Swyddogion Cyhoeddusrwydd*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# ARIAN Y GWRTHRYFEL MAWR

**Yn yr erthygl ddiweddaraf yn y gyfres i'r *Tyst* am ddarnau arian hynafol o'i eiddo mae Alun Lenny yn sôn am gyfnod y *prutah* – arian a fathwyd gan yr Iddewon yn 67–68 OC yn ystod cyfnod byr o ryddid cenedlaethol yn y Gwrthryfel Mawr Cyntaf yn erbyn Ymerodraeth Rufain.**



Mae'n amhosibl deall y cyfeiriadau sydd yn y Testament Newydd yn iawn oni bai ein bod ni'n gyfarwydd â'r cyd-destun hanesyddol, yn enwedig Gwrthryfel Mawr Cyntaf yr Iddewon yn 66–70 OC. Er iddo ddigwydd cenhedlaeth yn ddiweddarach, mae'r gwrthryfel yn taflu ei gysgod yn ôl dros yr hanesion am fywyd daearol Iesu Grist. Dyma gyfnod tybiedig llunio Efengyl Marc, sy'n dweud bod Iesu wedi proffwydo canlyniad trychinebus y gwrthryfel ar ôl iddo gyrraedd Jerwsalem.

> Wrth iddo fynd allan o'r deml, dyma un o'i ddisgyblion yn dweud wrtho, 'Edrych, Athro, y fath feini enfawr a'r fath adeiladau gwych!' A dywedodd Iesu wrtho, 'A weli di'r adeiladau mawr yma? Ni adewir yma faen ar faen; ni bydd yr un heb ei fwrw i lawr ... Ond pan welwch "y ffieiddbeth diffeithiol" yn sefyll lle na ddylai fod' (dealled y darllenydd) 'yna ffoed y rhai sydd yn Jwdea i'r mynyddoedd.'
>
> (Marc 13: 1–2, 14)

### Dechrau'r gwrthryfel

Mae'r 'ffieiddbeth diffeithol' yn adleisio'r broffwydoliaeth yn Daniel 9:27, ac yn y flwyddyn 40 OC fe wnaeth yr Ymerawdwr Caligula halogi'r deml trwy orchymyn codi delw ohono fe ei hun yno – gweithred ffiaidd wnaeth gorddi'r Iddewon. Bu'r anniddigrwydd yn Jerwsalem yn berwi o dan yr wyneb tan y flwyddyn 66 OC pan fu protestio yn erbyn gweithred y llywodraethwr Rhufeinig, Gassius Florus, wrth iddo anfon milwyr i mewn i'r deml er mwyn mynd ag arian o'r coffrau. Ar ôl i Florus groeshoelio nifer o arweinwyr y brotest, fe gododd yr Iddewon mewn gwrthryfel agored a gyrru'r Rhufeiniaid a Herod Agrippa II o'r ddinas. Lledaenodd y gwrthryfel i ddinasoedd a threfi eraill ledled Jwdea a Galilea.

### Brwydr Beth Horon

Anfonwyd tair lleng o filwyr Rhufeinig o Syria i ailfeddianu rhannau helaeth o'r wlad, ond methwyd cipio Jerwsalem, ac wrth ffoi tuag at yr arfordir ymosodwyd ar y fyddin ym mwlch serth Beth Horon. Cafodd 6,000 o Rufeiniaid eu lladd gan y gwrthryfelwyr, oedd yn cynnwys carfannau o'r Phariseaid, Sadwceiaid, Selotiaid a Sicarii a fu cyn hynny'n ymladd rhwng ei gilydd, a pharhau i ymladd yn nes ymlaen! Yn dilyn y fuddugoliaeth fawr yma fe wnaeth yr Iddewon ffurfio Cynulliad y Bobl yn Jerwsalem, ac ar ôl hynny fe ddechreuwyd bathu arian, gan gynnwys y darn bach sydd gennyf i.



### Newid mân

Y *prutah* o bres oedd newid mân y bobl. Ar un ochr (*llun 1*) mae amffora, sef llestr a ddefnyddiwyd i ddal gwin yn nefodau sanctaidd y deml, ac ar yr ochr arall (*llun 2*) mae deilen o'r winwydden a'r geiriau 'Rhyddid Seion' yn Hebraeg. Dyma un o symbolau'r genedl Iddewig. Canodd y salmydd 'Cymeraist winwydden o'r Aifft, a gyrru cenhedloedd i ffwrdd er mwyn ei thrawsblannu hi.' (Salm 80:8) Dywedodd Iesu: 'Myfi yw'r wir winwydden, a'm Tad yw'r gwinllannwr.' ( Ioan 15:1 ) Yn ôl yr hanesydd Josephus, un o arweinwyr y gwrthryfel cyn 'croesi'r llawr' at y Rhufeiniaid, roedd gwinwydden aur anferth ar fur y deml a godwyd gan Herod Fawr.

### Pum mlynedd o ryddid

Mae'r darn arian hefyd yn nodi ym mha flwyddyn (o'r pump) o ryddid y bathwyd ef. Mae'r un sydd gennyf i'n dyddio o'r ail flwyddyn, sef 67–68 OC. Dyna oedd penllanw'r Gwrthryfel Mawr Cyntaf. Wedyn, fe syrthiodd Galilea a dinasoedd Jwdea o un i un i'r Rhufeiniaid, gyda miloedd di-ri o fywydau'n cael eu colli. Yn y flwyddyn 70 OC fe wnaeth byddin enfawr gyrraedd Jerwsalem. Fe barodd y gwarchae am bedwar mis cyn i'r Rhufeiniaid lwyddo i dorri drwy'r olaf a'r tri mur uchel oedd yn amgylchynu'r ddinas.

Cafodd y deml anferth a hardd ei chwalu, a llosgwyd y ddinas. Gan fod rhai cannoedd o filoedd o Iddewon wedi ffoi i Jerwsalem am loches, roedd y lladdfa'n erchyll. Er i'r Sicarii yng nghaer uchel Masada ger y Môr Marw herio'r concwerwyr am dair blynedd arall, roedd y Gwrthryfel Mawr, i bob pwrpas, ar ben. Cofnodir y cyfan yn fanwl gan Josephus yn ei waith mawr 'Rhyfel yr Iddewon'.

### Trobwynt crefyddol

Bu hyn yn drobwynt yn hanes y grefydd Iddewig a Christnogol. Yn sgil dinistrio'r deml, y synagog lleol fyddai bellach yn ganolbwynt addoliad i'r Iddewon a'r Cristnogion cynnar. Ond o fewn llai nac ugain mlynedd, roedd dilynwyr Iesu wedi gadael y synagogau, gan dorri'r cyswllt gydag Iddewiaeth am byth.

Cyswllt gyda'r cyfnod cythryblus yna o ryddid byrhoedlog yr Iddewon bron i ddwy fil o flynyddoedd yn ôl yw'r darn bach o bres sydd yn fy llaw. Tybed beth fu tynged y sawl a fu'n ei ddefnyddio bryd hynny i brynu hanfodion bywyd?

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*